*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **29 Gorffennaf 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch – Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch (01745 535286)** |
| Pwnc | **Datganiad o Gyfrifon Archwiliedig a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno i'r aelodau y Datganiad o Gyfrifon archwiliedig ar gyfer 2018/19, sy'n cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod.

2 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael y dasg o sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar adroddiadau ariannol, ac o wneud argymhellion i'r Panel Gweithredol ar sail ei ganfyddiadau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

3 Ar 31 Mai 2019, cafodd y cyfrifon drafft eu cyflwyno i'w harchwilio. Roeddent yn cadarnhau gwariant net o £34.141m a arweiniodd at gyfraniad o £0.649m o'r cronfeydd wrth gefn. Nid yw'r sefyllfa derfynol archwiliedig wedi newid.

4 Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod ar gael yn Atodiad 2, ac mae'n dangos cydymffurfiaeth â Fframwaith CIPFA/Solace ar *Delivering Good Governance in Local Government* (2016).

5 Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadarnhau barn archwilio ddiamod.

6 I gydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010, rhaid i'r cyfrifon archwiliedig a'r datganiad llywodraethu blynyddol gael eu cymeradwyo gan yr Aelodau erbyn 31 Gorffennaf 2019.

**ARGYMHELLIAD**

7 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi argymhellion y Pwyllgor Archwilio;

(ii) cymeradwyo sefyllfa'r alldro archwiliedig a'r perfformiad fel y nodir yn Natganiad o Gyfrifon 2018/19 (Atodiad 1);
(iii) cymeradwyo'r trefniadau llywodraethu a'r cynllun gweithredol fel yr amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19 (Atodiad 2); a
(iv) nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod (Atodiad 3).

**SYLWADAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO**

8 Cafodd Datganiad o Gyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19 eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 29 Gorffennaf 2019. Rhoddir yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn y cyfarfod.

**CEFNDIR**

9 I gydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010, mae'r Awdurdod wedi llunio datganiad o gyfrifon a datganiad llywodraethu sydd wedi bod yn destun archwiliad allanol.

**GWYBODAETH**

**GWARIANT REFENIW**

10 Fe wnaeth aelodau'r Awdurdod gael adroddiad perfformiad ariannol ar gyfer 2018/19 yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 17 Mehefin 2019. Roedd hwn yn cadarnhau sefyllfa'r alldro drafft, sef £34.141m o wariant net, ac arweiniodd hyn at gyfraniad o £0.649m o'r cronfeydd cyffredinol yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r sefyllfa derfynol archwiliedig wedi newid.

**Y FANTOLEN**

11 Mae'r Fantolen yn darparu rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol hirdymor yr Awdurdod, ac mae ar gael ar dudalen 16 o'r Cyfrifon (fel y nodir yn Atodiad 1). Mae'r paragraffau a ganlyn yn darparu rhagor o wybodaeth.

**Asedau sefydlog**

12 Roedd yr Awdurdod yn dal £48.8m o asedau ar 31 Mawrth 2019, ac roedd hynny'n cynnwys ychwanegiadau o £1.9m yn ystod y flwyddyn. £32.6m oedd gwerth y benthyciadau ar 31 Mawrth 2019, ac mae hyn yn cyd-fynd â'r terfynau a osodwyd gan yr Awdurdod.

### Ymrwymiadau Pensiwn

13 Rhaid i'r Awdurdod roi cyfrif am yr ymrwymiadau amcangyfrifiedig ar gyfer ei gynlluniau pensiwn. Mae gan yr Awdurdod ddau gynllun, sef Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae gwerth ymrwymiadau'r dyfodol yn cael ei gyfrifo gan actiwari pob cynllun.

14 Fe wnaeth Deddf Pensiynau 2013 gyflwyno newidiadau i drefniadau pensiwn y sector cyhoeddus. Roedd y prif newid yn ymwneud â'r ffordd yr oedd gweithwyr wedi cronni eu hawliau. Yn hanesyddol, roedd hyn yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r cyflog terfynol ar adeg ymddeol, ac roedd angen i'r newidiadau fabwysiadu cyflog cyfartalog drwy eu gyrfa. Gwnaethpwyd trefniadau pontio yn genedlaethol ar gyfer pob cynllun pensiwn, a'r nod oedd darparu amddiffyniad i'r bobl oedd agosaf at ymddeol.

15 Fe wnaeth Undeb yr FBU godi her gyfreithiol i'r trefniadau pontio, a gwrandodd y Llys Apêl ar yr her yn ystod Tachwedd 2018. Canfu'r Llys Apêl fod Llywodraeth y DU wedi camwahaniaethu'n anuniongyrchol drwy gymhwyso'r trefniadau pontio a oedd yn gysylltiedig ag oedran. Gofynnodd Llywodraeth y DU am ganiatâd i apelio yn erbyn y dyfarniad, ac ar 27 Mehefin 2019 gwrthodwyd hyn. Bydd y mater nawr yn dychwelyd i Dribiwnlys Cyflogaeth i'w gywiro.

16 Er nad yw canlyniad y Tribiwnlys Cyflogaeth yn hysbys, mae Llywodraeth y DU yn ystyried y bydd hyn yn arwain at gynnydd yn yr ymrwymiadau i bob cynllun pensiwn yn y sector cyhoeddus. Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi gwneud gwaith modelu i asesu'r effaith bosibl.

17 Gan fod Llywodraeth y DU wedi colli ei gais i apelio, bu'n rhaid cynyddu ymrwymiadau'r cynllun pensiwn o'r rhai a oedd yn y cyfrifon drafft. Felly, gwnaethpwyd £12.883miliwn o gynnydd, ac arweiniodd hynny at £332.209miliwn o ymrwymiadau ar ddiwedd y flwyddyn.

### Cronfeydd defnyddiadwy

18 £2.145m oedd yng nghronfeydd yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2019, ac roedd hynny'n cynnwys £1.375m mewn cronfa gyffredinol a £0.77m mewn cronfeydd wedi'u clustnodi.

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

19 Ers 2010/11, bu'n rhaid i bob corff llywodraeth leol lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sy'n cael ei gyhoeddi fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.

20 Cafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei lunio yn unol â'r saith egwyddor sydd yn y ddogfen gyfarwyddyd *Delivering Good Governance in Local Government: Framework (CIPFA/SOLACE 2016).*

21 Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19 ar gael yn Atodiad 2. Mae'n darparu trosolwg o'r trefniadau llywodraethu, ac mae'n cadarnhau'r cynllun gwaith ar gyfer 2019/20.

22 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei adolygu gan Swyddfa Archwilio Cymru i gadarnhau ei fod yn gyson â'i hadnabyddiaeth hi o'r Awdurdod, ac ni nodwyd unrhyw faterion.

**ARCHWILIO'R DATGANIADAU ARIANNOL**

23 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am roi ei farn a yw'r datganiadau ariannol yn darparu golwg gwir a theg o berfformiad ariannol a sefyllfa'r Awdurdod yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019.

24 Wrth gyflawni'r gwaith archwilio, nid ceisio darparu sicrwydd absoliwt y mae Swyddfa Archwilio Cymru, ond ystyried a oes unrhyw faterion o bwys a allai arwain at gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon. Pan fo gwall neu gamddatganiad yn cael ei ganfod, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried a oes angen eu diwygio. Yn Atodiad 4, rhoddir arweiniad ar y dull i'w ddilyn.

25 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnig cyhoeddi barn archwilio ddiamod, sy'n golygu bod y cyfrifon yn darparu golwg gwir a theg o drafodion ariannol yr Awdurod. Mae'r adroddiad ar gael yn Atodiad 3, a nodir y canlynol:

- Mae'r adroddiad archwilio yn cydnabod bod gwelliannau mawr wedi cael eu gwneud mewn perthynas ag ansawdd y datganiadau ariannol a'r papurau gwaith cysylltiol. Mae'r adroddiad yn nodi rhagor o feysydd ar gyfer gwella, a'r camau y cytunwyd arnynt.
- Roedd yr archwiliad yn canfod nifer o ddiwygiadau y cytunwyd arnynt gyda'r rheolwyr. Nid oedd y diwygiadau'n effeithio ar y sefyllfa a adroddwyd gan yr Awdurdod, ac roeddent yn cynnwys nifer o addasiadau sydd eu hangen i gydymffurfio'n llwyr â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol.
- Fe wnaeth yr archwiliad ganfod un gwall, ac nid yw hwnnw wedi cael ei gywiro eto. Roedd y gwall yn ymwneud â'r ffordd y rhoddwyd cyfrif yng Nghyfrifon y Gronfa Bensiwn am y dreth sy'n ddyledus ar gyfandaliadau. Cafwyd sicrwydd gan y rheolwyr y bydd y symiau'n cael eu talu i Gyllid a Thollau EM pan fyddant yn ddyledus, ac nid ydynt yn bwysig i'r farn.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae gan yr adroddiad gysylltiad ag amcanion llesiant hirdymor ATAGC. Mae cyllid i'r Gwasanaeth yn llesol i gymunedau Gogledd Cymru, ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddi yn digwydd yn y seilwaith er mwyn i'r gwasanaeth allu darparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Gosodir y gyllideb bob blwyddyn yn unol â'r gwasanaethau arfaethedig, sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol. |
| **Cyfreithiol** | Dan y gyfraith, rhaid i'r Awdurdod lunio Datganiad o Gyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â'r safonau a ragnodwyd. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n agos er mwyn sicrhau bod unrhyw achosion o wyro o'r gyllideb a gymeradwyd yn cael eu nodi'n briodol a'u hadrodd i'r Aelodau. |